



# Ymgynghoriad ar Reoleiddio Safleoedd Niwclear yng Nghyfnodau Terfynol Datgomisiynu a Glanhau: Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i safleoedd niwclear y Deyrnas Unedig yng nghyfnodau terfynol gwaith datgomisiynu a glanhau.

## Trosolwg

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi ynglŷn ag ynni niwclear a gosodiadau niwclear ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys y fframwaith polisi, deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â datgomisiynu a glanhau safleoedd niwclear.

Gan gydweithio â'r rheoleiddwyr,<sup>1</sup> y Gweinyddiaethau Datganoledig, Adrannau eraill o'r Llywodraeth a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), rydym wedi nodi cyfle i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i gyfnodau terfynol gwaith datgomisiynu a glanhau safleoedd niwclear a hynny er mwyn caniatáu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff ac adfer tir.

## Crynodeb o'r sefyllfa bresennol

Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer diogelwch niwclear a rhwymedigaeth trydydd partïon niwclear. Mae NIA65 yn nodi system o reolaeth reoleiddiol sydd wedi'i seilio ar broses drwyddedu gadarn a weinyddir gan y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear (ONR). O dan y drefn hon, mae'n ofynnol bod gan weithredwr safle drwydded i ddefnyddio safle at weithgareddau penodedig megis gweithredu atomfeydd.

---

<sup>1</sup> Y rheoleiddwyr yw'r Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear (ONR), asiantaethau'r amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban yn yr Alban) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Does dim safleoedd niwclear yng Ngogledd Iwerddon ond Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) yw'r rheoleidiwr amgylcheddol.

Yn ychwanegol at gyfundrefn drwyddedu safleoedd niwclear, mae NIA65 yn gofyn bod darpariaeth ariannol ar gael i dalu hawliadau os ceir digwyddiad niwclear, yn unol â gofynion y gyfraith gydwladol ar rwymedigaethau trydydd partïon niwclear.

Yng nghyfnodau cynnar gwaith datgomisiynu adweithydd niwclear, mae'r tanwydd sydd wedi darfod a'r gwastraffoedd mwyaf gweithredol yn cael eu symud a'u storio mewn man arall, gan arwain at ostyngiad o fwy na 99% yn y peryglon ymbelydrol ar y safle. Yng nghyfnodau olaf y datgomisiynu a'r glanhau, mae'r risgiau a'r peryglon yn gostwng nes nad oes angen rheoleiddio o dan y drefn drwyddedu safleoedd niwclear na defnyddio trefn rhwymedigaeth trydydd partïon niwclear mwyach.

Gan gydnabod hyn, mae Pwyllgor Llywio Ynni Niwclear y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi penderfynu'n ddiweddar y gall safleoedd sydd wrthi'n cael eu datgomisiynu gael eu hepgor o'r drefn rhwymedigaeth niwclear ryngwladol, pan fo'r holl beryglon niwclear wedi'u symud a phan fo'r risg i'r cyhoedd yn fach.

Mae safleoedd niwclear sydd yng nghyfnodau terfynol gwaith datgomisiynu a glanhau yn cael eu rheoleiddio gan yr ONR ac asiantaethau'r amgylchedd. Asiantaethau'r amgylchedd sy'n gyfrifol am reoleiddio gwaith i waredu gwastraff ymbelydrol ac agweddau eraill ar ddiogelu'r amgylchedd. Mae'r cyfundrefnau rheoleiddio a ddefnyddir gan yr ONR ac asiantaethau'r amgylchedd yn amrywio o ran eu hymagwedd at lanhau ac aildefnyddio safleoedd.

### **Yr achos o blaid newid**

Yn gryno, dyma'r prif resymau dros newid:

- ar hyn o bryd, mae rhwymedigaeth trydydd partïon niwclear yn parhau ar ôl yr adeg pan nad oes ei hangen mwyach. Hyd yn hyn, nid yw'r Deyrnas Unedig wedi gweithredu penderfyniadau Pwyllgor Llywio'r OECD ar gyfer Ynni Niwclear ar hepgor safleoedd penodol o'r gyfundrefn rhwymedigaeth niwclear;
- mae'n ofynnol i weithredwyr safleoedd sy'n dymuno gadael cyfundrefn drwyddedu NIA65 lanhau'r safle mewn ffordd nad yw'n caniatáu iddyn nhw gydbwysu'r risgiau cyffredinol ynglŷn â diogelwch a'r amgylchedd ac fe allai hyn arwain at gostau diangen; ac
- mae cyfleusterau gwaredu ar gyfer gwastraff ymbelydrol sydd wedi'u lleoli ar safleoedd trwyddedig niwclear yn dal i ddod i dan drwydded niwclear. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu rheoleiddio gan asiantaethau'r amgylchedd hefyd. Rydym o'r farn bod y rheoleiddio deuol hwn yn ddiangen ar ôl i faterion diogelwch niwclear gael eu datrys.

## Yr egwyddorion ynglŷn â datblygu'r cynigion ymgynghori

Wrth lunio'r cynigion, rydym wedi glynu wrth yr egwyddorion a ganlyn:

- rhaid peidio â llacio safonau diogelu'r cyhoedd – mae'r cynigion yn gyson â chyfraith y Deyrnas Unedig ar ddiogelu ymbelydrol, y safonau rhyngwladol a chanllawiau Public Health England;
- rhaid i'r cynigion barchu egwyddorion statudol rheoleiddio da;
- rhaid i'r safleoedd aros o dan y rheoliadau priodol; a
- rhaid defnyddio gweithdrefn drylwyr i asesu manteision a risgiau ehangach opsiynau glanhau gwahanol, er mwyn canfod yr ateb cyffredinol gorau i bob safle a'i amgylchoedd.

### Y cynigion ymgynghori'n fyr:

1. Rydym yn bwriadu newid NIA65 i ganiatáu i drwyddedeion adael y gyfundrefn drwyddedu pan fydd y safle wedi cyrraedd safonau y cytunir arnynt yn rhyngwladol a phan fydd materion diogelwch niwclear wedi'u datrys yn llawn.
2. Ar ôl i'r drwydded ddod i ben, câi'r safle ei reoleiddio gan yr asiantaeth amgylchedd berthnasol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), yn yr un modd ag y rheoleiddir safleoedd diwydiannol anniwclear eraill sy'n cael eu glanhau rhag halogiad ymbelydrol neu halogiad arall. Câi cynigion ar gyfer rhagor o waith glanhau eu hasesu gan yr asiantaeth amgylchedd berthnasol o dan y Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol.
3. Rydym yn bwriadu caniatáu i'r ONR hepgor cyfleusterau gwaredu penodol ar gyfer gwastraff ymbelydrol o'r safle niwclear trwyddedig, os yw wedi'i bodloni bod materion diogelwch niwclear wedi'u datrys yn llawn. Câi'r cyfleusterau eu rheoleiddio gan yr asiantaeth amgylchedd berthnasol a'r HSE a'r asiantaeth amgylchedd berthnasol a fyddai'n gyfrifol am benderfynu pryd y dylai rhwymedigaeth trydydd parti niwclear ddod i ben.
4. I ganiatáu i'r newidiadau hyn ddigwydd, rydym yn bwriadu gweithredu dau benderfyniad diweddar gan Bwyllgor Llywio'r OECD ar gyfer Ynni Niwclear ynghylch hepgor safleoedd penodol o'r gyfundrefn trydydd parti niwclear.
5. Rydym yn bwriadu tynhau'r broses ildio trwydded i'w gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai wneud cais i'r ONR am ildio'r drwydded. Rydym hefyd yn bwriadu cryfhau'r gofyniad i'r ONR ymgynghori â'r HSE pan gaiff y drwydded ei hildio neu ei hamrywio.

Mae'n bwysig nodi y byddai'r cyfundrefnau rhwymedigaeth cyfreithiol ynglŷn ag iawndal neu niwed i drydydd parti yn dal i fod ar gael o dan chyfraith y Deyrnas Unedig ar ôl unrhyw benderfyniadau i ddod â gofynion ynghylch rhwymedigaeth arbennig i ben o dan y gyfundrefn rhyngwladol ar drydydd parti niwclear.

## Y camau nesaf

Byddwn yn adolygu'r ymatebion i'r cynigion ac yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad.

Os penderfynwn fwrw ymlaen â'r cynigion, bydd angen rhagor o waith. Byddai'r camau nesaf yn cynnwys datblygu deddfwriaeth ddrafft i ddiwygio NIA65 a chydweithio ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i benderfynu a fyddai angen newidiadau mewn is-ddeddfwriaeth.

## Catalog o gwestiynau ymgynghori

| Cwestiynau Ymgynghori |  |
|-----------------------|--|
| 1.                    | Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i hepgor safleoedd niwclear sydd wrthi'n cael eu datgomisiynu a'u glanhau rhag y gyfundrefn rhwymedigaeth trydydd partïon, pan fydd yr amodau a bennir yn Hepgoriad Datgomisiynu Confensiwn Paris wedi'u bodloni? Os nad ydych, pam? |
| 2.                    | Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i drwyddedai safle niwclear <b>wneud cais</b> i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) am ildio'r drwydded ac y dylai gollir gallu i ildio'r drwydded yn ddiamed fel ar hyn o bryd?   |
| 3.                    | Ydych chi'n cytuno y dylai'r ONR allu hepgor cyfleusterau gwaredu gwastraff o drwydded y safle niwclear os yw'n fodlon bod y materion diogelwch niwclear a'r materion diogelwch ynglŷn â'r cyfleusterau hyn wedi'u datrys? Os nad ydych, pam?                      |
| 4.                    | Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth arall y dylem ei chymryd i ystyriaeth yn ein hasesiad effaith?  |
| 5.                    | Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn?  |